| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad:** | **28.2.17** |
| **Pwnc:** | **NOD AC AMCANION LLESIANT CYNGOR SIR YNYS MÔN - 17/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alwyn Rowlands** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Scott Rowley** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>**752111**<br>**GethinMorgan@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol a deddfwriaeth Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant 2016 mae gofyn ar y Cyngor Sir i –

(i) fabwysiadu a
(ii) cyhoeddi

nodau ac amcanion llesiant lleol erbyn y 31ain o fis Mawrth, 2017.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r ddeddf uchod ac yn ymdrechu i barhau i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein hynys. Fel Cyngor, byddwn yn gwneud penderfyniadau sydd yn meddwl mwy am y hir-dymor, yn gweithio'n well gyda'n pobl, gan ddod a cymunedau at eu gilydd gan edrych i atal problemau.

Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd fwy cyd-lynnus a holistaidd a fydd yn ein helpu i adeiladu ar a chreu y Môn yr ydym i gyd am fyw ynddi, yn awr ac i'r dyfodol.

Er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r papur atodol (Atodiad 1) yn sefydlu Nod ac Amcanion llesiant pwrpasol ac yn dangos sut y byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ein bod yn eu gwireddu er mwyn

cyfrannu at gyflawni’r saith amcan llesiant cenedlaethol o fod yn -

1. Llewyrchus
2. Gwydn
3. Iachach
4. Mwy cyfartal
5. Cymunedau cyd-lynol
6. Yr Iaith Gymraeg a diwylliant
7. Yn fyd-eang gyfrifol

Mae'r Ddeddf hefyd yn pwysleisio'r angen i ymwreiddio’r egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac yn ystyried ein gwaith o safbwynt yr hirdymor, gan integreiddio dulliau gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys a chydweithio ag eraill ac yn canolbwyntio ar fesurau ataliol.

Mae’r Nod a'r amcanion atodol yn gosod y cynsail ar gyfer datblygiad pellach ein cynllun corfforaethol newydd yn ystod 2017-18 fydd hefyd yn defnyddio asesiad llesiant drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Mon a Gwynedd). Canlyniad hyn yw mai Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor Sir 2017-2022 fydd yn cynnwys ein Amcanion Llesiant dros y cyfnod uchod ac mai disgwyliad dros dro yn unig sydd yn cael ei gyfarch gan y papur yma.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth pellach i’r datblygiad yma yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol mis Mai 2017.

Gofynnir felly i’r Cyngor Sir –

a. Fabwysiadu’r Nod a’r Amcanion Llesiant Lleol sydd yn atodol gan hefyd
b. Gytuno i gyhoeddi’r nod a’r amcanion hynny cyn ddiwedd mis Mawrth 2017

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oes unrhyw opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan fod hyn yn rhan o’r Fframwaith Polisi sy'n nodi'r angen i ddogfen o'r fath gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn a’i gyhoeddi yn unol a disgwyliadau deddfwriaethol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| |

| D/B |
|---|

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | Cytuno gyda'r cyfeiriad gweithredol ar gyfer 17/18 gyda'r dealltwriaeth y bydd yn datblygu 'mhellach wrth i'r cynllun corfforaethol newydd gael ei lunio. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylw pellach |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cytundeb i'r ffordd ymlaen. Sylwadau yn gynnwysiedig yn y ddogfen |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Nod ac Amcanion Llesiant Cyngor Sir Ynys Môn 2017/18 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

# DATGANIAD AMCANION LLES CYNGOR SIR YNYS MON

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac yn ymdrechu i barhau i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein ynys. Fel Cyngor, byddwn yn meddwl mwy yn nhermau y tymor hir, yn gweithio'n well gyda phobl, y cymunedau eu hunain ac yn edrych i atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy gyfrannol i gyfarch unrhyw broblemau all godi yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i adeiladu ar a chreu y Môn yr ydym i gyd am fyw ynddi yn awr ac yn y dyfodol.

.

## Rhagarweiniad

Er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r papur hwn yn sefydlu datganiad ac amcanion lles lleol sydd yn dangos sut y byddwn yn cymryd camau rhesymol i sicrhau ein bod yn gwireddu y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r Ddeddf hefyd yn pwysleisio'r angen i gofleidio egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac yn ystyried atebion hirdymor, gan integreiddio dulliau gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys chydweithio ag eraill a canolbwyntio ar fesurau ataliol.

Bydd y datganiad canlynol ar amcanion lles ar gyfer 2017-18 yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol presennol sy'n cael ei ddatblygu, ac yn adlewyrchu asesiad drafft o lesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddant yn cael eu hystyried ymhellach yn dilyn etholiad Llywodraeth Leol Mai 2017.

## Datganiad Llesiant

Fel Cyngor, byddwn yn gweithio tuag at ynys sy'n datblygu ac yn meithrin

- unigolion annibynnol o fewn
- teuluoedd cryf sy'n byw mewn
- cymunedau iach sydd yn

  - ffynnu
  - llewyrchus
  - fywiog ac yn
  - gwydn

## Amcanion Llesiant

Mae Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer 2017-18 yn seiliedig ar yr asesiad 'drafft' a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

1. Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob drigolyn lwyddo, waeth beth fo'u cefndir.
2. Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial.

3. Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da sy'n addas i unigolion a busnesau fel ei gilydd
4. Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy ac o ansawdd uchel a rheoli’r cyflenwad hwnnw er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith ar yr ynys.

Mae'r amcanion llesiant uchod yn gyson â dogfen Etifeddiaeth y Cyngor 2025 a'r Cynllun Corfforaethol esblygol ar gyfer 2017-2022; ymhelaethir ar y camau a gymerir gan wasanaethau'r Cyngor ar y cyd ag eraill i gyflawni'r amcanion uchod. Maent hefyd wedi cael eu mapio i'r **saith** amcan llesiant cenedlaethol a’r **pum** ffordd o weithio.

**Cyswllt gydag amcanion llesiant cenedlaethol**

Mae pob un o'n hamcanion llesiant yn cyfrannu at un neu fwy o'r saith Amcan llesiant cenedlaethol. Mae'r canlynol yn amlinellu'r cysylltiadau perthnasol -

| | **Amcan** | **Sut bydd Amcanion Llesiant y Cyngor yn cwrdd â'r Amcanion Llesiant Cenedlaethol** |
|---|---|---|
| 1. | **Llewyrchus** | Mae dau amcan yn cyfeirio at bwysigrwydd tai, yr amgylchedd, cymorth i fusnesau ac addysg wrth gyfrannu at Ynys Môn lewyrchus. |
| 2. | **Gwydn** | Mae dau amcan yn cyfeirio at bwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol a chymunedau cynaliadwy. |
| 3. | **Iachach** | Mae un amcan yn cyfeirio'n benodol at iechyd, ac mae un arall yn nodi pwysigrwydd rhoi’r cychwyn gorau mewn bywyd tra bod un arall yn nodi pwysigrwydd tai o ansawdd da. |
| 4. | **Mwy cyfartal** | Mae un amcan yn cyfeirio at bwysigrwydd creu’r amodau i’r holl drigolion allu cyflawni eu potensial. |
| 5. | **Cymunedau cydlynol** | Mae’r datganiad a'r amcanion yn cyfeirio at bwysigrwydd gwydnwch personol a chymunedol lle mae'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn cael eu diogelu a'u datblygu. |
| 6. | **Yr Iaith Gymraeg / Diwylliant Cymreig** | Mae’r Iaith Gymraeg a’r Diwylliant Cymreig yn nodweddion allweddol o'n hamcanion llesiant. |
| 7. | **Yn fyd-eang gyfrifol** | Mae’r amcanion llesiant, o’u cymryd gyda'i gilydd, yn sicrhau bod cyfrifoldeb a chynaliadwyedd byd-eang yn sail i flaenoriaethau a ffordd o weithio’r Cyngor. |

| I **Amcanion Llesiant a’r Cyswllt gyda Nodau Cenedlaethol** | Ffyniannus | Gwydn | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau | Diwylliant | Yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob preswylydd lwyddo, waeth beth fo'u cefndir. | X | | | X | X | | X |
| 2. Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob | | X | X | X | X | X | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach, a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial. | | | | | | | |
| 3. | Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da sy'n addas i unigolion a busnesau fel ei gilydd | X | | X | X | X | | X |
| 4. | Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd uchel a rheoli’r cyflenwad er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith Gymraeg ar yr ynys. | | X | | X | X | X | |

| 5 ffordd o weithio | Yr amcanion llesiant yw: |
|---|---|
| **Tymor hir** | Mynd i'r afael ag anghenion tymor hirach dinasyddion ac ymateb yn uniongyrchol i'r materion tymor hir a nodwyd gan ddinasyddion fel rhan o'r ymgynghoriad. |
| **Integredig** | Yn berthnasol i bob gwasanaeth a phob partner allanol ac felly’n hyrwyddo gweithio integredig yn fewnol ac yn allanol. |
| **Cynhwysol** | Yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan drigolion fel rhan o'r broses ymgynghori. Maent hefyd wedi bod yn destun ymgynghoriad mewnol ac allanol. |
| **Cydweithredol** | Yn berthnasol i bartneriaid allanol ac felly’n hyrwyddo dulliau a ffyrdd o weithio cydweithredol. |
| **Atal** | Wedi ei ddylunio i atal problemau rhag digwydd neu waethygu. |

**Cefndir i'r amcanion llesiant**

**Amcan 1** - Creu cymunedau cynaliadwy drwy ddatblygu economi ffyniannus a llewyrchus sy'n cynnig y cyfle i bob preswylydd lwyddo, waeth beth fo'u cefndir.

**Rhesymau dros ei ddewis**

Mae Ynys Môn wedi bod yn dioddef o ganlyniad i economi fregus, ymylol a dirywiol ers cryn amser, gyda phocedi sylweddol o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, sydd wedi arwain at lefelau GYG sy’n gostwng (53.5% o gyfartaledd cenedlaethol y DU); lefelau GYG isel y pen (£13,162 o gymharu â £24,616 trwy’r DU); lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc (17.7% o bobl ifanc 16-24 oed - 31/12/2015); lefelau uchel o anweithgarwch economaidd (20.7% o'r boblogaeth oed gweithio); lefelau uchel o bobl ifanc yn allfudo a phoblogaeth hŷn sy'n heneiddio a gorddibyniaeth ar gyfleon cyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

**Cyswllt ag amcanion llesiant cenedlaethol a ffyrdd o weithio**

**Amcanion**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llewyrchus | X | Gwydn | | Iachach | |
| Mwy Cyfartal | X | Cydlynol / Diwylliant | X | Yn fyd-eang gyfrifol | X |

**Ffyrdd o weithio**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Integreiddio | X | Atal | X | Cydweithio | X | Cynhwysol | X | Tymor hir | X |

**Gall gweithgareddau gynnwys -**

- Denu datblygwyr mawr i fuddsoddi yn Ynys Môn i hwyluso trawsnewid yr ynys.
- Datblygu Strategaeth Addysg newydd a Rhaglen Cyflogaeth, Sgiliau a Hyfforddiant i

- sicrhau bod gan bobl ifanc ac oedolion yr ynys y sgiliau i fanteisio ar gyfleoedd a fydd yn codi yn y dyfodol
- Gwella safleoedd ac eiddo cyflogaeth yr ynys i ddenu a hwyluso buddsoddiad yn yr economi
- Gwella cynhwysedd a gwydnwch yr isadeiledd i gwrdd ag anghenion cymunedau, busnesau ac ymwelwyr
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddarparu twf economaidd a chyflogaeth gynaliadwy
- Datblygu rhaglen wrthdlodi.

**Amcan 2:**. Gwella rhagolygon tymor hir teuluoedd a phlant drwy sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, eu bod yn ddiogel ac yn iach, a bod pob disgybl, waeth beth fo'u cefndir neu eu hoedran, yn cyrraedd eu potensial addysgol.

**Rhesymau dros ei ddewis**

Bydd economi mwy llewyrchus yn gweithredu fel catalydd sy'n galluogi trigolion i fod yn fwy uchelgeisiol yn eu bywydau ac yn economaidd. Mae galluogi trigolion i gyrraedd eu llawn botensial yn anochel yn gyfuniad o nifer o ffactorau megis cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant; argaeledd tai fforddiadwy ac o ansawdd a mynediad i amgylchedd naturiol ac adeiledig o safon uchel. Mae galluogi trigolion i gyflawni eu llawn botensial a ffynnu yn golygu bod raid cael yr amodau iawn iddynt fedru gwella ansawdd eu bywydau a'u llesiant.

**Cyswllt ag amcanion llesiant cenedlaethol a ffyrdd o weithio.**

**Amcanion**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffyniannus | | Gwydn | X | Iachach | X |
| Mwy Cyfartal | X | Cydlynol / Diwylliant | X | Yn fyd-eang gyfrifol | |

**Ffyrdd o weithio**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Integreiddio | X | Atal | X | Cydweithio | X | Cynhwysol | X | Tymor hir | X |

**Gall y gweithgareddau gynnwys -**

- Parhau â'r rhaglen moderneiddio ysgolion
- Ailsiapio dysgu Cymraeg yn ein hysgolion i alluogi pobl ifanc i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gymdeithas ehangach
- Sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau angenrheidiol i fedru manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol
- Gwell cyfleoedd prentisiaeth i roi'r sgiliau a'r galluoedd priodol i bobl ifanc ac oedolion
- Buddsoddi mewn isadeiledd technoleg gwybodaeth i wella cysylltedd digidol
- Dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol fforddiadwy ac o ansawdd da
- Cefnogi teuluoedd a rhieni i ostwng profiadau niweidiol mewn plentyndod a all gael effeithiau gydol oes
- Canolfannau Dysgu Cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig gyda gofal plant, cymorth rhianta, dysgu teuluol a mynediad cymunedol i gyfleusterau ar sail y diwrnod ysgol

| **Amcan 3**. Diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig trwy sicrhau isadeiledd modern o ansawdd da |
|---|

**Rhesymau dros ei ddewis**

Mae gan Ynys Môn enw da yn rhyngwladol o ganlyniad i'w hamgylcheddau naturiol ac adeiledig unigryw a safon uchel. Mae'n hollbwysig diogelu a gwella'r nodweddion hynod hyn pan fo hynny'n bosibl, yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar eu gwerth fel adnoddau economaidd-gymdeithasol. Mae amgylcheddau naturiol ac adeiledig yr ynys yn hollbwysig i'r sector twristiaeth, ac i gefnogi a chynnal yr economi leol a rhanbarthol. Bydd yr angen i gydbwyso effeithiau posib y prosiectau mawr arfaethedig ar ansawdd yr amgylchedd lleol yn her i ddatblygwyr, y Cyngor Sir a rhanddeiliaid eraill.

**Cyswllt ag amcanion llesiant cenedlaethol a ffyrdd o weithio.**

**Amcanion**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llewyrchus | X | Gwydn | | Iachach | X |
| Mwy Cyfartal | X | Cydlynol / Diwylliant | X | Yn fyd-eang gyfrifol | X |

**Ffyrdd o weithio**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Integreiddio | X | Atal | X | Cydweithio | X | Cynhwysol | X | Tymor hir | X |

**Gall y gweithgareddau gynnwys -**

- Lliniaru effeithiau prosiectau mawr (gan gynnwys effeithiau cronnus) ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.
- Mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid hinsawdd i ddiogelu llesiant hirdymor amgylchedd, economi a chymunedau'r ynys
- Cefnogi gweithgareddau i leihau'r defnydd o ynni a thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni.
- Gweithio gydag eraill i hyrwyddo rheolaeth ac addysg amgylcheddol er mwyn gwella gwydnwch cynaliadwyedd yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Manteisio ar botensial arfordir yr ynys i sicrhau y cyflawnir manteision economaidd-gymdeithasol
- Ymestyn pa mor bell yr ydym ar y blaen i wledydd eraill o ran ailgylchu, a tirlenwi llai o wastraff drwy wella ein cyfraddau ailgylchu
- Parhau i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd a chymryd camau pellach i reoli dŵr yn well yn ein hamgylchedd

| **Amcan 4:** Sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd uchel a rheoli'r cyflenwad hwnnw er mwyn datblygu cymunedau dwyieithog gwydn sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a sicrhau dyfodol tymor hir yr iaith Gymraeg ar yr ynys. |
|---|

**Rhesymau dros ei ddewis**

Mae galluogi cymunedau i ffynnu'n golygu bod raid cael yr amodau iawn i drigolion allu gwella ansawdd eu bywydau a'u llesiant, ac mae argaeledd tai fforddiadwy ac o ansawdd, ynghyd â mynediad i amgylchedd adeiledig o safon uchel yn hanfodol i gyflawni'r amcan hwn. Dim ond dwy ran o dair o boblogaeth yr Ynys fedr ddarllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg. Mae diogelu a

datblygu'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth yr ynys, a'r uchelgais clir yw annog a chefnogi mwy o gymunedau a thrigolion yr ynys i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u bywyd bob dydd.

**Cyswllt ag amcanion llesiant cenedlaethol a ffyrdd o weithio.**

**Amcanion**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llewyrchus | | Gwydn | Xi | Iachach | |
| Mwy Cyfartal | X | Cydlynol / Diwylliant | X | Yn fyd-eang gyfrifol | |

**Ffyrdd o weithio**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Integreiddio | X | Atal | X | Cydweithio | X | Cynhwysol | X | Tymor hir | X |

**Gall gweithgareddau gynnwys -**

- Dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol fforddiadwy ac o ansawdd da
- Darparu tai newydd a chyfleusterau gofal ychwanegol
- Gweithredu, monitro ac adolygu Strategaeth Iaith Gymraeg CSYM a'r Cynllun Addysg Gymraeg
- Darparu cefnogaeth a chyngor priodol i ddatblygwyr i hyrwyddo dwyieithrwydd.
- Cefnogi datblygu cynlluniau iaith Gymraeg ar gyfer prosiectau penodol a gweithgareddau cynefino
- Datblygu mesurau priodol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a achosir gan brosiectau mawr
- Cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg